





# Cefnogi gwelliannau mewn lleoliadau gofal plant a chwarae

## Canllawiau i ddarparwyr ar gyfer cyfarfodydd ansawdd

© Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50885, ISBN digidol 978-1-83625-775-2
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English

# Cefndir

Yn 2023, gwnaethom dreialu ffordd newydd o weithio gyda darparwyr gofal plant a chwarae. Roedd y ffordd newydd hon o weithio yn cynnwys cyflwyno 'cyfarfodydd ansawdd' (y cyfeiriwyd atynt fel cyfarfodydd gwella yn ystod y cynllun peilot) rhwng arolygiadau. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i ddarparwyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw welliannau roeddent wedi'u gwneud ers yr arolygiad diwethaf a rhoi gwybod i ni am unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella.

Roedd y **gwerthusiad** o'r cynllun peilot yn gadarnhaol iawn, ac o ganlyniad, gwnaethom benderfynu cyflwyno'r ffordd newydd hon o weithio ym mhob lleoliad gofal plant a chwarae cofrestredig.

Rydym yn disgwyl i bob darparwr feddu ar eu systemau sicrhau ansawdd effeithiol eu hunain sy'n canolbwyntio ar fonitro, adolygu, a gwella profiadau'r plant yn eu gofal yn barhaus. Mae'r ffordd newydd hon o weithio wedi cael ei chynllunio i ategu'r gwaith hwn.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein dull arolygu **yma**.



## Beth yw cyfarfod ansawdd?



Caiff cyfarfod ansawdd ei gynnal rhwng eich arolygiadau arferol, ac mae'n gyfle da i ni ddod at ein gilydd i siarad am unrhyw welliannau rydych wedi'u gwneud ers eich arolygiad diwethaf.

Yn ogystal â rhannu sut rydych wedi ymateb i feysydd i'w gwella neu argymhellion â ni, rydym yn eich annog i rannu unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd gennych, a pha gamau rydych wedi'u cymryd.

Byddwn hefyd yn eich cyfeirio at offer ac adnoddau defnyddiol a all eich helpu gyda'ch gwelliannau.

Caiff cyfarfodydd ansawdd fel arfer eu cynnal yn rhithwir ond os na fydd hyn yn bosibl, gallwn siarad dros y ffôn neu gwrdd yn eich swyddfa Llywodraeth Cymru sydd agosaf atoch. Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu amser a dyddiad sy'n gyfleus i bawb ar gyfer y cyfarfod ansawdd.



## Pa leoliadau fydd yn cael cyfarfod ansawdd?

Bydd y rhan fwyaf o leoliadau yn gymwys i gael cyfarfod ansawdd.

Fel arfer, ni fydd angen cyfarfod ansawdd ar leoliadau y dyfarnwyd pedair gradd ragorol iddynt, felly ni fyddwch yn clywed gennym tan yr arolygiad llawn nesaf sydd wedi'i drefnu ar eich cyfer. Fodd bynnag, os byddwn yn cael gwybodaeth sy'n dangos dirywiad posibl mewn ansawdd, efallai y byddwn yn trefnu cyfarfod ansawdd a/neu arolygiad cynharach, yn dibynnu ar natur y wybodaeth a gawn.

Os dyfarnwyd o leiaf un radd wael i'ch lleoliad, a/neu hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth agored, byddwn yn parhau i ddilyn y **llwybr sicrhau gwelliant a gorfodi**, a threfnir arolygiad â blaenoriaeth ar eich cyfer. Os bydd yr arolygiad hwn yn canfod eich bod wedi gwneud digon o welliannau i gau'r hysbysiad/hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a gwella'r radd wael, bydd eich lleoliad wedyn yn gymwys i gael cyfarfod ansawdd cyn yr arolygiad nesaf sydd wedi'i drefnu.

# Paratoi ar gyfer eich cyfarfod ansawdd



Cyn y cyfarfod, ceisiwch feddwl am y canlynol:

- Eich adroddiad arolygu diweddaraf ac unrhyw welliannau rydych wedi'u gwneud mewn perthynas â hyn.
- Eich adroddiad diweddaraf ar ansawdd y gofal ac unrhyw welliannau rydych wedi'u gwneud o ganlyniad iddo.
- Unrhyw welliannau rydych wedi'u gwneud o ganlyniad i unrhyw bryderon rydym wedi gofyn i chi ymchwilio iddynt.
- Gwelliannau eraill rydych wedi'u gwneud ers eich arolygiad diwethaf.
- Unrhyw hysbysiadau rydych wedi'u rhoi i ni y gallech fod am eu trafod yn fanylach â ni.
- Gwelliannau rydych wedi'u cynllunio yn y dyfodol.

Nid oes rhaid i chi gyflwyno unrhyw ddogfennaeth cyn y cyfarfod ond mae croeso i chi wneud hynny os credwch y byddai'n ddefnyddiol.

Os byddwch yn dymuno anfon unrhyw ddogfennaeth atom, neu drafod unrhyw bynciau eraill, gofynnwn i chi eu hanfon atom drwy e-bost i agc@llyw.cymru o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Nid yw'n debygol y bydd gennym amser i ystyried unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn hwyrach na hyn.

# Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfarfod ansawdd?

Yn dilyn y cyfarfod, byddwn yn anfon crynodeb o'r drafodaeth atoch. Yn wahanol i'ch adroddiadau arolygu, ni fydd hwn yn cael ei gyhoeddi.



Os na fyddwn yn hyderus eich bod yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus, caiff gweithgarwch rheoleiddio ychwanegol ei drefnu. Bydd hyn fel arfer yn golygu y caiff eich arolygiad nesaf sydd wedi'i drefnu ei gynnal yn gynharach na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn disgwyl cael sicrwydd bod gennych ddulliau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella eich lleoliad yn barhaus.

**Gallwch ddarganfod mwy am ein dull arolygu yma**